# YR ATODLENNI

## ATODLEN 4

Erthygl 30

## DARPARIAETHAU O RAN YMGYMERWYR STATUDOL, ETC.

*Cyfarpar ymgymerwyr statudol, etc. ar dir a gaffaelwyd*

**1.**—(1) Mae adrannau 271 i 274 o Ddeddf 1990 (y pŵer i ddileu hawliau ymgymerwyr statudol, etc. a phŵer ymgymerwyr statudol etc. i symud neu ailosod cyfarpar) yn gymwys mewn perthynas ag unrhyw dir a gaffaelwyd neu a berchnogwyd gan yr ymgymerwr o dan y Gorchymyn hwn neu y caffaelodd yr ymgymerwr hawliau drosto o dan erthygl 20 o'r Gorchymyn hwn, yn ddarostyngedig i'r darpariaethau a ganlyn o'r paragraff hwn; ac mae holl ddarpariaethau eraill y Ddeddf honno sy'n gymwys at ddibenion y darpariaethau hynny (gan gynnwys adrannau 275 i 278, sy'n cynnwys darpariaethau sy'n ganlyniadol i ddileu unrhyw hawliau o dan adrannau 271 a 272, ac adrannau 279(2) i (4), 280 a 282, sy'n darparu ar gyfer talu iawndal) yn effeithiol yn unol â hynny.

(2) Yn narpariaethau Deddf 1990, fel y'u cymhwyswyd gan is-baragraff (1), mae cyfeiriadau at y Gweinidog priodol yn gyfeiriadau at yr Ysgrifennydd Gwladol, neu, mewn perthynas ag ymgymerwyr dŵr neu garthffosiaeth, at y Cynulliad Cenedlaethol.

(3) Pan symudir unrhyw gyfarpar sydd at ddefnydd y cyfleustodau cyhoeddus neu ddarparwyr cyfathrebu cyhoeddus yn unol â hysbysiad neu orchymyn a roddwyd neu a wnaed o dan adran 271, 272 neu 273 o Ddeddf 1990, fel y'u cymhwyswyd gan is-baragraff (1), bydd gan unrhyw berson sy'n berchen ar, neu'n meddu ar, fangre a oedd yn cael cyflenwad o'r cyfarpar hwnnw yr hawl i gael iawndal gan yr ymgymerwr o ran gwariant a dynnwyd yn rhesymol gan y person hwnnw, at ddibenion creu cysylltiad rhwng y mangreoedd ac unrhyw gyfarpar arall sy'n rhoi cyflenwad.

(4) Ni fydd is-baragraff (3) yn gymwys yn achos symud carthffos gyhoeddus ond, pan symudir y garthffos honno yn unol â hysbysiad neu orchymyn fel a grybwyllir yn y paragraff hwnnw, bydd unrhyw berson—

(a) sy'n berchen neu sy'n meddu ar y fangre sydd â'i draeniau'n gysylltiedig â'r garthffos honno; neu

(b) sy'n berchen ar garthffos breifat sy'n gysylltiedig â'r garthffos honno;

â'r hawl i gael iawndal gan yr ymgymerwr mewn perthynas â gwariant a dynnwyd yn rhesymol gan y person hwnnw, yn sgil y symud, at ddibenion cysylltu draen neu garthffos y person hwnnw ag unrhyw garthffos gyhoeddus arall neu â gweithfeydd preifat i waredu carthion.

(5) Ni fydd darpariaethau Deddf 1990 a grybwyllir yn is-baragraff (1), fel y cânt eu cymhwyso gan yr is-baragraff hwnnw, â grym mewn perthynas â'r cyfarpar y mae Rhan III o'r Ddeddf Gwaith Stryd yn gymwys mewn perthynas ag ef.

(6) Yn y paragraff hwn—

mae i "darparwr cyfathrebu cyhoeddus" yr un ystyr ag sydd i "*public communications provider*" yn adran 151(1) o Ddeddf Cyfathrebu 2003(**1**);

ystyr "Deddf 1990" ("*the 1990 Act*") yw Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990; ac

(**1**) 2003 p.21.

mae i "ymgymerwyr cyfleustodau cyhoeddus" yr un ystyr ag sydd i "*public utility undertakers*" yn Neddf Priffyrdd 1980(**2**).

**2.** Nid yw'r pwerau a roddir gan y Gorchymyn hwn yn ymestyn i awdurdodi caffael neu gysylltu â'r peilon trydan presennol, heb gydsyniad yr ymgymerwr trydan trwyddedig y mae'r peilon wedi'i freinio ynddo o bryd i'w gilydd.

(**2**) 1980 p.66.